

# Cofnodion – Y Pwyllgor Busnes

---

Lleoliad:

Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr – Tŷ

Hywel

Dyddiad: Dydd Mawrth, 25 Mehefin 2019

Amser: 08.30 – 09.04

## Preifat

---

### Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Pwyllgor:	Elin Jones AC, Llywydd (Cadeirydd) Rebecca Evans AC Darren Millar AC Rhun ap Iorwerth AC Caroline Jones AC
Staff y Pwyllgor:	Aled Elwyn Jones (Clerc)
Eraill yn bresennol	Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd Elin Roberts, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd Helen Carey, Llywodraeth Cymru Lowri Hughes, Ysgrifenyddiaeth y Siambr



Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3 Trefn busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

#### Dydd Mawrth

- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio cyn trafodion Cyfnod 3.
- Bydd egwyl o 5 munud cyn dechrau trafodion Cyfnod 3.

#### Dydd Mercher

- Bydd y bleidlais ar y ddadl ar y cyd â Senedd Ieuenctid Cymru yn digwydd yn syth ar ôl yr eitem honno, a bydd y cyfnod pleidleisio ar bob eitem arall o fusnes y Cynulliad yn digwydd cyn y Ddadl Fer.

### 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

### 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

#### Dydd Mercher 3 Gorffennaf 2019 –

- ~~Dadl Fer Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni) (30 munud)~~ – symudwyd i 26 Mehefin
- Dadl Fer Jack Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy) (30 munud) – wedi'i gohirio o 26 Mehefin

## Dydd Mercher 17 Gorffennaf 2019 –

- Cynnig i nodi'r adroddiad blynyddol ar Gynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2018 – 19 (30 munud)
- Dadl ar yr adroddiad ar y cyd rhwng y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg; y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau; a'r Pwyllgor Cyllid: Asesu effaith penderfyniadau cyllidebol (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

### 3.4 Eitem fusnes ar y cyd â Senedd Ieuenctid Cymru – trefniadau manwl

Trafododd y Rheolwyr Busnes y papur a daethant i'r casgliad mai eu dewis oedd cael pleidlais ar y cynnig, yn hytrach nag iddo gael ei dderbyn heb bleidleisio arno.

Siaradwyr y grwpiau ar gyfer yr eitem fydd Arweinwyr y Pleidiau, ac eithrio Plaid Cymru lle y bydd Rhun ap Iorwerth yn siarad. Gofynnodd y Llywydd i Reolwyr Busnes annog eu Haelodau i fod yn bresennol ar gyfer y ddadl.

### 3.5 Dadl ar Gynigion Deddfwriaethol Aelodau – dethol cynnig ar gyfer dadl

- Dewisodd y Pwyllgor Busnes y cynnig a ganlyn ar gyfer dadl ar 3 Gorffennaf:

**NNDM7102 Helen Mary Jones, (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil ar reoli'r gwasanaeth iechyd.
2. Yn nodi mai diben y Bil fyddai:
  - a) sefydlu corff proffesiynol i reolwyr y GIG yng Nghymru i bennu cymwyseddau proffesiynol craidd ar gyfer rheolwyr ar bob lefel, sicrhau bod rhaglenni hyfforddiant cychwynol priodol a rhaglenni datblygiad proffesiynol parhaus yn cael eu datblygu, a gyda'r pŵer i gymryd sanctsiynau yn erbyn rheolwyr am berfformiad gwael neu anniogel;
  - b) sicrhau gwir annibyniaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru;

c) sefydlu dyletswydd gonestrwydd cyfreithiol i fod yn berthnasol i bob gweithiwr iechyd proffesiynol gan gynnwys rheolwyr; a

d) sefydlu system gwynion ddilys, gadarn a thryloyw sy'n cefnogi rhieni a theuluoedd.

[Mesur y Gymraeg \(Cymru\) 2011](#)

[Cymraeg 2050: Strategaeth ar gyfer y Gymraeg](#)

## **4 Deddfwriaeth**

### **4.1 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Ardrethu Annomestig (Rhestrau)**

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol at Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar gyfer craffu gan y pwyllgor, gyda dyddiad cau ar gyfer adrodd yn ôl ar 4 Gorffennaf.

### **4.2 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Gemau'r Gymanwlad yn Birmingham**

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol at Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar gyfer craffu gan y pwyllgor, gyda dyddiad cau ar gyfer adrodd yn ôl ar 3 Hydref.

## **Unrhyw Fater Arall**

Yn amodol ar gadarnhad gan grŵp Ceidwadwyr Cymru ei fod yn fodlon, cytunwyd y dylid gostwng nifer aelodau'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i 4 Aelod. Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gyflwyno'r cynnig i ddileu Dawn Bowden o'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol cyn gynted ag y ceir cadarnhad.